Rhaglen Genedlaethol Archwiliadau Anadlol (NRAP)

Hysbysiad Preifatrwydd NRAP

Fersiwn 4.1: Tachwedd 2026

Cyflwyniad

Bwriad y ddogfen hon yw darparu gwybodaeth i ddefnyddwyr gwasanaeth sy'n gleifion, clinigwyr, rhieni/gofalwyr y gellir defnyddio eu gwybodaeth ar gyfer gwaith y Rhaglen Archwilio Anadlol Genedlaethol (NRAP). Mae'n egluro pa fath o wybodaeth rydym yn ei chasglu, pam rydym yn casglu'r wybodaeth, a beth rydyn yn ei wneud â'r wybodaeth.

Cafodd yr hysbysiad preifatrwydd hwn ei ddiweddaru ym mis Mai 2018 i fodloni gofynion y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR). Byddwn yn parhau i ddiweddaru'r polisi preifatrwydd hwn pryd bynnag y byddwn yn newid y math o brosesu a wnawn. Byddem yn eich annog i ddod yn ôl i'r dudalen hon yn rheolaidd a gwirio'r polisi hwn am unrhyw newidiadau.

Ein sail gyfreithiol dros gasglu a phrosesu gwybodaeth

Dyma'r seiliau cyfreithiol ar gyfer casglu a defnyddio data personol:

Dyletswydd Cyfrinachedd o dan y Gyfraith Gyffredin

Rydym yn cymhwyso Dyletswydd Cyfrinachedd o dan y Gyfraith Gyffredin i'r holl ddata sydd gennym.

- Erthygl 6 - amod ar gyfer cyfreithlondeb prosesu:
    - 1(e) mae'n rhaid prosesu er mwyn cyflawni tasg a wneir er budd y cyhoedd neu wrth arfer awdurdod swyddogol sydd wedi'i roi i'r rheolydd.

Mae hyn yn cael ei gyfiawnhau drwy drefniadau comisiynu sy'n cysylltu'n ôl â NHS England, Llywodraeth Cymru a chyrff cenedlaethol eraill sydd â chyfrifoldebau statudol i wella ansawdd y gwasanaethau gofal iechyd.

- Erthygl 9 - amod ar gyfer prosesu categorïau arbennig o ddata personol.
    - 2(i) - mae'n rhaid prosesu er budd y cyhoedd ym maes iechyd cyhoeddus, megis gwarchod rhag bygythiadau trawsffiniol difrifol i iechyd neu sicrhau safonau uchel o ran ansawdd a diogelwch gofal iechyd a chynhyrchion meddyginiaethol neu ddyfeisiau meddygol, ar sail cyfraith Undeb neu Aelod-wladwriaeth sy'n darparu ar gyfer mesurau addas a phenodol i ddiogelu hawliau a rhyddid gwrthrych y data, yn enwedig cyfrinachedd proffesiynol.

Mae cyfiawnhad dros hyn gan mai nod NRAP yw sbarduno gwelliannau yn ansawdd a diogelwch gofal a gwella canlyniadau i gleifion.

Mae gwybodaeth yn cael ei phrosesu'n gyfreithlon ac yn deg, yn unol â Deddf Diogelu Data 2018

- Atodlen 1, rhan 1, pwynt 3 (iechyd y cyhoedd): Mae'r amod hwn yn cael ei fodloni os yw'r prosesu yn…
    (a) angenrheidiol am resymau budd y cyhoedd ym maes iechyd y cyhoedd,
    (b) cael ei gyflawni
        (i) gan neu o dan gyfrifoldeb gweithiwr iechyd proffesiynol, neu

(ii) gan unigolyn arall sydd, o dan yr amgylchiadau, â dyletswydd cyfrinachedd o dan ddeddfiad neu reol gyfreithiol.

Tasg Gyhoeddus
Dim ond yr wybodaeth sy'n angenrheidiol i gyflawni ein swyddogaeth rydym yn ei chasglu, ac rydym yn osgoi casglu gwybodaeth na fydd yn cael ei defnyddio. Daw'r wybodaeth hon gan ddarparwyr gofal iechyd, fel Ymddiriedolaethau'r GIG a Byrddau Iechyd Lleol. I weld pa wybodaeth a gedwir yn eich cofnod gofal iechyd, cysylltwch â'ch Ymddiriedolaeth GIG leol neu'ch Bwrdd Iechyd Lleol.

Cydsyniad
Pan fydd pobl yn cofrestru i gael cylchlythyrau a diweddariadau, yn mynd i ddigwyddiadau neu'n gweithio gyda NRAP, rhoddir caniatâd i ni storio a phrosesu data personol.

Rhwymedigaeth gyfreithiol
Er enghraifft, dyma'r sail rydym yn ei defnyddio pan fydd angen i ni gydymffurfio â'r gyfraith (heb gynnwys rhwymedigaethau cytundebol) oherwydd mae'n ofynnol i ni gadw dogfennau i'w cynhyrchu mewn achosion llys.

Buddiannau dilys
Defnyddir y sail hon er mwyn i ni fod yn gallu cadw gwybodaeth fel tystiolaeth os bydd ei hangen arnom yn y dyfodol, er enghraifft, os byddwch yn gofyn i ni eich dad-danysgrifio o'n cylchlythyr.

Pan fyddwn yn casglu eich gwybodaeth

Os ydych chi'n glaf sy'n bodloni meini prawf un o'n harchwiliadau clinigol, mae'n bosibl y byddwn ni'n casglu eich rhif GIG, eich dyddiad geni a'ch cod post yn ogystal â gwybodaeth am rai o'r agweddau ar eich gofal.

Os ydych chi'n glinigydd, byddwn yn gofyn am eich enw a'ch cyfeiriad e-bost, ac o bosibl gwybodaeth arall, pan fyddwch chi'n:

- Llenwi holiadur
- Cofrestru i gael yr wybodaeth ddiweddaraf am raglen waith NRAP
- Dod yn gyswllt astudiaeth neu'n Aelod o Grŵp Cynghori
- Mynd i ddigwyddiad sy'n cael ei drefnu gan NRAP, neu sy'n eu cynnwys

Mae'r rhan fwyaf o'r wybodaeth bersonol rydym yn ei chasglu wedi cael ei derbyn yn uniongyrchol gennych chi. Gallwch roi eich enw a'ch manylion cyswllt neu ddata personol arall i ni:

- Pan fyddwch yn llenwi ffurflen ar ein gwefan
- Pan fyddwch yn cyfathrebu â ni, er enghraifft os byddwch yn gwneud ymholiad
- Pan fyddwch yn mynd i ddigwyddiad, ar-lein neu wyneb yn wyneb
- Pan fyddwch yn llenwi unrhyw arolygon neu ffurflenni adborth y byddwn yn eu hanfon atoch
- Pan fyddwch yn llenwi unrhyw ffurflenni
- Pan fyddwch yn gwneud cais am swydd gyda ni
- Os ydych yn gweithio i ni neu gyda ni
- Os byddwch yn ymrwymo i gontract gyda ni, er enghraifft os ydych yn un o'n cyflenwyr, neu os ydym yn un o'ch cyflenwyr chi
- Os byddwch yn prynu un o'n gwasanaethau neu ein cynnyrch, neu os byddwn yn prynu gennych chi
- Os byddwch yn hawlio treuliau gennym

Pa wybodaeth rydym yn ei chasglu

Trosolwg o gasgliadau data cyfredol

Ar hyn o bryd mae NRAP yn cadw gwybodaeth ar gyfer y rhaglenni gwaith canlynol:

- Archwiliad clinigol gofal eilaidd ar gyfer asthma oedolion
- Archwiliad clinigol gofal eilaidd i Blant a Phobl Ifanc
- Archwiliad clinigol gofal eilaidd Clefyd Rhwystrol Cronig yr Ysgyfaint (COPD)
- Archwiliad clinigol gofal sylfaenol (Cymru)
- Archwiliad clinigol adsefydlu ysgyfeintiol
- Gwella gofal iechyd

Data archwiliad clinigol

Rydym yn casglu gwybodaeth am y gofal a ddarperir i sampl fawr o gleifion yn uniongyrchol o ysbytai a gwasanaethau ar gyfer pob archwiliad clinigol. Mae hyn yn cynnwys:

- Rhif GIG, cod post, dyddiad geni a, lle bo'n berthnasol, dyddiad marw (os bu farw yn ystod y cyfnod derbyn)
- Dyddiad, amser ac adran cyrraedd yr ysbyty
- Gwybodaeth ddemograffig ac iechyd, fel rhywedd, statws iechyd meddwl, cod post, ethnigrwydd, ysmygu
- Asesiadau, fel prawf cerdded, Holiadur Anadlol Cronig
- Mesurau clinigol, fel cyfradd resbiradaeth, dirlawnder ocsigen, mesur llif anadl

- Manylion am dderbyn a rhyddhau claf i'r ysbyty ac ymlaen i'r atgyfeiriad(au)
- Gofal clinigol, gan gynnwys adolygiad gan arbenigwr, darparu ocsigen, defnyddio cymorth anadlu anfewnwthiol, sbirometreg, defnyddio steroidau a gweithyddion β2, bwndel rhyddhau
- Canlyniadau, gan gynnwys aildderbyn a marwolaeth 30 a 90 diwrnod ar ôl rhyddhau

Mae'r wybodaeth hon yn cael ei mewnbynnu i adnodd casglu data ar-lein diogel sy'n cael ei greu a'i reoli gan Crown Informatics ar ran NRAP. Mae'r data'n cael ei fewnbynnu gan staff yn ysbytai/gwasanaethau'r GIG sydd wedi cofrestru gyda'r archwiliad clinigol ac ar yr adnodd casglu data diogel. Does gan ddim un o weithwyr NRAP fynediad at yr wybodaeth hon.

Yn fuan ar ôl y dyddiad cau ar gyfer casglu data, mae Crown Informatics yn dileu'r holl wybodaeth adnabyddadwy (fel rhif GIG, dyddiad geni) ac yn anfon y data dienw ar lefel cleifion i Goleg Imperial Llundain. Mae Coleg Imperial Llundain yn glanhau ac yn dadansoddi'r data cyn ei anfon at NRAP i ysgrifennu adroddiadau.

Cysylltu Data

Cymru a Lloegr:

Bydd yr wybodaeth archwilio yn cael ei chysylltu â data sydd eisoes yn cael ei gadw gan GIG Lloegr ac Iechyd a Gofal Digidol Cymru (DHCW): sef setiau data Ystadegau Cyfnodau Ysbytai (HES) a Chronfa Ddata Cyfnodau Gofal Cleifion Cymru (PEDW) a data marwolaethau'r Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS).

Cofnod o'r holl dderbyniadau i'r ysbyty yn Lloegr yw'r HES, mae PEDW yn cofnodi'r holl gyfnodau o weithgarwch claf mewnol a chlaf allanol mewn ysbytai GIG Cymru, tra bod data marwolaeth ONS yn dod o ddata cofrestru sifil. Bydd GIG Lloegr a DHCW yn cael gwybodaeth sy'n adnabod claf (rhif GIG, dyddiad geni a chod post) gan Crown Informatics i gysylltu'r data archwilio â'r ffynonellau hyn.

Cymru a Lloegr:

Unwaith y bydd y data wedi'i gysylltu, bydd yn cael ei anfon at Crown Informatics i'w brosesu, gan gynnwys gofalu nad oes enw ar yr holl wybodaeth sy'n adnabod claf. Yna, bydd Coleg Imperial Llundain yn derbyn y cofnodion dienw ar lefel cleifion ar gyfer y cleifion a gymerodd ran yn yr archwiliad gan HES, PEDW ac ONS. Yna bydd Imperial yn anfon y data wedi'i ddadansoddi a'i chyfuno at dîm NRAP er mwyn i ni gael ysgrifennu a chyhoeddi gwybodaeth i gefnogi'r adroddiadau cenedlaethol.

Nod y cysylltiad data yw cael darlun o'r hyn a ddigwyddodd i gleifion ar ôl iddynt gael eu trin am asthma neu COPD, er enghraifft os cawsant eu haildderbyn i'r ysbyty. Dim ond y niferoedd cyffredinol rydym yn eu defnyddio ac yn adrodd arnynt. Ni fydd unrhyw wybodaeth y gellid ei defnyddio i adnabod unigolion yn cael ei rhyddhau.

Cesglir gwybodaeth lle byddai modd adnabod y claf heb gael caniatâd gan y claf dan Adran 251 Deddf GIG 2006 yng Nghymru a Lloegr, a roddwyd gan yr Awdurdod Ymchwil Iechyd. Mae hyn yn caniatáu i NRAP dorri Dyletswydd Cyfrinachedd Cyfraith Gyffredin drwy gasglu data personol o dan amgylchiadau penodol a gyda gweithdrefnau diogelwch data llym ar waith. Mae crynodebau o'r ceisiadau di-ymchwil a gymeradwywyd ar gyfer NRAP ar gael ar y gofrestr cymeradwyaethau ar wefan Awdurdod Ymchwil Iechyd. Dyma'r cyfeirnodau:

- Archwiliad gofal eilaidd ar gyfer asthma i blant a phobl ifanc – 19/CAG/0001
- Archwiliad gofal eilaidd ar gyfer asthma i oedolion – 23/CAG/0045
- Archwiliad gofal eilaidd COPD – 23/CAG/0045
- Archwiliad Adsefydlu Ysgyfeintiol – 23/CAG/0167
- Cymeradwyo cronfa ddata ymchwil gyffredinol HQIP – 24/CAG/0108

Data a gasglwyd nad yw'n ymwneud ag astudiaethau penodol

- Eich enw
- Eich manylion cyswllt
- Rôl eich swydd a'ch sefydliad
- Os byddwch yn gwneud cais am swydd gyda ni, byddwn yn casglu gwybodaeth am eich hanes cyflogaeth, eich cymwysterau a'ch geirdaon
- Os ydych yn gweithio i ni, byddwn yn casglu ac yn defnyddio gwybodaeth bersonol ychwanegol, fel manylion iechyd a manylion ariannol
- Os byddwch yn hawlio treuliau gennym ni, fel costau teithio am ddod i gyfarfod, byddwn yn cadw eich enw a'ch cyfeiriad at ddibenion cyfrifyddu ac archwilio
- Os byddwch yn llenwi unrhyw holiaduron, arolygon neu ffurflenni adborth, byddwn yn casglu eich profiadau, eich barn ac unrhyw wybodaeth am iechyd rydych chi'n fodlon ei rhannu â ni
- Os byddwch yn rhyngweithio â'n gwefan, efallai y byddwn yn casglu gwybodaeth dechnegol benodol, fel eich gweithgarwch pori ar draws ein gwefan a'ch cyfeiriad IP. Mae cyfeiriad IP yn rhoi lleoliad y gweinydd rydych chi'n cysylltu â ni ohono. Dim ond i sicrhau diogelwch y wefan y byddwn yn defnyddio'r wybodaeth hon.

Sut a pham rydym yn defnyddio'r wybodaeth

Prif bwrpas gwaith NRAP yw ymchwilio i ansawdd y gofal a ddarperir i gleifion er mwyn gwella gofal cleifion yn y dyfodol. Ni fydd hyn yn effeithio ar ofal uniongyrchol neu barhaus i gleifion unigol.

Bydd yr holl gleifion sy'n bodloni'r meini prawf rydyn ni'n edrych arnyn nhw, fel plant a phobl ifanc ag asthma sydd wedi bod mewn cysylltiad â gwasanaethau ysbyty yn ystod y cyfnod archwilio, yn cael eu cynnwys yn yr adnodd casglu data ar-lein. Os yw claf wedi dewis optio allan o ddefnyddio ei ddata at unrhyw ddibenion ar wahân i'w ofal iechyd, bydd yn cael ei dynnu o'r sampl gan yr ysbyty sy'n cyflwyno'r data. Dim ond dyddiad geni, rhif GIG a chod post sy'n cael eu casglu ynghyd â gwybodaeth nad oes modd ei defnyddio i adnabod rhywun am eu gofal.

Cesglir gwybodaeth lle byddai modd adnabod y claf heb gael caniatâd gan y claf dan Adran 251 Deddf GIG 2006 yng Nghymru a Lloegr, a roddwyd gan yr Awdurdod Ymchwil Iechyd. Mae hyn yn caniatáu i ni dorri Dyletswydd Cyfrinachedd o dan Gyfraith Gyffredin drwy gasglu data personol o dan amgylchiadau penodol a gyda gweithdrefnau diogelwch data llym ar waith.

Mae'r data dienw sy'n cael ei ddadansoddi yn cael ei gadw am 5 mlynedd, yn unol â Chod Ymarfer Rheoli Cofnodion y Gynghrair Llywodraethu Gwybodaeth ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2016.

Sut byddwn yn diogelu eich gwybodaeth

Rydym yn cymryd y cyfrifoldeb o gadw data personol pobl o ddifrif. Mae gennym bolisïau mewnol sy'n nodi ac yn arwain ein diogelwch data. Mae'r holl staff yn cadw at y dull hwn ac yn cael hyfforddiant rheolaidd ar ddiogelu data.

Cedwir gwybodaeth electronig am gleifion a sefydliadau (fel cronfeydd data, pyrth ar-lein ac ati) ar weinyddion diogel. Dim ond i Crown Informatics y bydd gwybodaeth lle byddai modd adnabod y claf yn cael ei chyflwyno, a bydd yn ddienw cyn cael ei dadansoddi.

Mae Diogelwch Gwybodaeth a Llywodraethu Gwybodaeth yn gofyn am strwythurau rheoli ac atebolrwydd clir ac effeithiol, prosesau llywodraethu, polisïau a gweithdrefnau wedi'u dogfennu, staff hyfforddedig ac adnoddau

digonol. Felly, rydym wedi creu'r dogfennau canlynol i roi manylion clir am y polisïau a'r gweithdrefnau sydd gennym ar waith.

I weld datganiad preifatrwydd Coleg Brenhinol y Meddygon, cliciwch yma.

Gyda phwy rydym yn rhannu eich data personol

Gall sefydliadau trydydd parti hefyd ofyn am gael defnyddio'r data at ddibenion ymchwil, archwilio ac arfarnu gwasanaethau. Ni fydd y data hwn fel arfer yn cynnwys dynodyddion personol (fel eich rhif GIG). Fodd bynnag, yn yr achosion prin hynny, byddwn yn gwneud yn siŵr bod y trefniadau cyfreithiol, moesegol a diogelwch priodol ar waith i gadw eich manylion personol yn ddiogel.

Bydd enwau clinigwyr, gweithwyr proffesiynol ym maes archwilio/llywodraethu clinigol, aelodau Grŵp Cynghori'r Astudiaeth, aelodau'r Bwrdd a gweithwyr proffesiynol eraill rydym yn gweithio gyda nhw yn cael eu rhannu yn y tîm wrth gynnal yr archwiliadau angenrheidiol.

Defnyddio data NRAP ar gyfer ymchwil

Ar ôl tynnu dynodwyr cleifion o'r data yn y rhaglen hon, gellir defnyddio data at ddibenion ymchwil eilaidd. Mae cymeradwyaeth Cronfa Ddata Ymchwil Trosfwaol pencadlys HQIP ar gyfer y NCAPOP yn caniatáu ailddefnyddio'r gronfa ddata hon o dan A.251 o Ddeddf y GIG 2006 (Cyfeirnod 24/CAG/0108). Os yw ymchwilydd yn gwneud cais am ddata adnabyddadwy, bydd angen i'r ymchwilydd wneud cais am CAG ar wahân. Y prif reswm bob amser dros ddefnyddio'r data fydd er mwyn gwella gofal a gwasanaethau i bobl sydd â COPD. Ni fydd NRAP yn rhannu unrhyw ddata oni bai fod trefniadau cyfreithiol, moesegol a diogelwch priodol ar waith i gadw'r manylion yn ddiogel.

Beth yw eich hawliau dros eich data personol?

Yr hawl i ddileu

Gallwch ofyn i ni beidio â defnyddio gwybodaeth bersonol amdanoch chi yn ein hastudiaethau a byddwn yn sicrhau bod unrhyw ran o'ch gwybodaeth sydd gennym yn cael ei dinistrio. Bydd angen gwneud hyn fesul astudiaeth. Fel arall, yr unig ffordd y gallem eich tynnu o bob astudiaeth fyddai cadw data personol amdanoch chi er mwyn cymharu â'r wybodaeth a gawn am gleifion.

Mae gennych hefyd yr hawl i gyfyngu ar brosesu a gwrthwynebu prosesu. Rydym yn trin y rhain yn yr un ffordd â'r hawl i ddileu a thynnu'r holl wybodaeth amdanoch.

Os ydych chi'n penderfynu y byddai'n well gennych i ni beidio â defnyddio eich gwybodaeth, rhowch wybod i ni drwy gysylltu â ni'n ysgrifenedig yn y cyfeiriad post neu drwy'r e-bost hwn: nrapinbox@rcp.ac.uk.

Yr hawl i gael mynediad

Mae gennych hawl i weld pa wybodaeth a gedwir amdanoch. Crown Informatics yw'r unig sefydliad yn y rhaglen archwilio clinigol sy'n derbyn data personol, ac mae'n cael ei wneud yn ddienw cyn gynted â phosibl. Os ydych chi'n glaf, nid ydym yn defnyddio enwau na chyfeiriadau felly byddai'n rhaid i chi wybod eich rhif GIG. Ar ôl i'r data gael ei wneud yn ddienw, ni fyddai'n bosibl nodi a oeddech chi'n cael eich cynnwys yn y sampl archwilio. Mae gennych *hawl i gywiro* unrhyw ddata sy'n anghywir ond ni fyddai ei gywiro gyda ni yn newid yr wybodaeth yn eich cofnod iechyd ac efallai y byddwch am gysylltu â'ch darparwr gofal iechyd yn uniongyrchol.

Yr hawl i gludadwyedd data

Os oes gennym wybodaeth amdanoch chi a'ch bod yn dymuno gweld yr wybodaeth honno, byddwn yn darparu eich data mewn fformat y byddwch yn gallu ei ddefnyddio, fel Microsoft Word, Excel neu CSV.

I weld pa wybodaeth sydd gennym amdanoch chi, cysylltwch â nrapinbox@rcp.ac.uk. Ni chodir tâl am hyn.

✓	Rydym yn gwneud y canlynol: • defnyddio data personol i helpu i wella gwasanaethau gofal iechyd • cadw'r holl ddata personol yn ddiogel ac yn gyfrinachol • rhoi'r hawl i chi optio allan o unrhyw un o'n hastudiaethau
✗	Nid ydym yn gwneud y canlynol: • rhannu eich data personol â thrydydd partïon • defnyddio data personol neu adnabyddadwy yn ein hadroddiadau

Swyddog Diogelu Data

Pamela Forde yw'r Swyddog Diogelu Data yng Ngholeg Brenhinol y Meddygon. Mae rhagor o wybodaeth ar gael drwy anfon e-bost i dataprotection@rcp.ac.uk neu drwy gysylltu â swyddfa NRAP ar 020 3075 1505.

Cysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth

Os ydych chi'n anhapus â'r ffordd rydym yn delio â'ch data neu os ydych chi wedi delio â chais, mae gennych chi hawl i gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn https://ico.org.uk/concerns/ neu drwy ffonio 0303 123 1113.

Cysylltu â NRAP

Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu os ydych am ofyn i ni beidio â chynnwys eich data mewn astudiaeth, cysylltwch â:
Tom Baker, Prif Swyddog Datblygiad Proffesiynol
Safonau Proffesiynol, Coleg Brenhinol y Meddygon
11 St Andrews Place | Regent's Park | Llundain NW1 4LE
E-bost: Tom.Baker@rcp.ac.uk

Mae rhagor o wybodaeth fanwl am waith NRAP ar gael yn: https://www.rcp.ac.uk/improving-care/national-clinical-audits/the-national-respiratory-audit-programme-nrap/